**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027 CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion cyfarfod HYBRID y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ddydd Llun 27 Mawrth 2023 am 5.00pm.

Cafodd y cyfarfod yma'i ffrydio'n fyw, ac mae'r manylion i'w gweld yma

**Roedd y Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol canlynol, sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027 yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

J Edwards
G Hughes
S Morgans
Mr M Veale (Aelod Cyfetholedig)

**Roedd y Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol canlynol, sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027 yn bresennol ar-lein:-**

| | | |
|---|---|---|
| K Morgan | J Bonetto | J Brencher |
| W Owen | M Ashford | S Evans |
| G Williams | K Webb | Sheryl Evans |
| | C Middle | |

**Swyddogion yn bresennol:**

Mr S Gale - Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr A Wilkins - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Hanagan – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mrs S Daniel – Blaen Swyddog Materion Democrataidd a Chraffu
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella

**Y Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol:**

M Webber
C Leyshon
S Powderhill
A Crimmings
M Powell
D Wood
C Lisles

**60 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Does dim adroddiadau wedi dod i law.

**61 COFNODION**

PENDERFYNWYD: Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2023.

**62 DOLENNI YMGYNGHORI**

Cyfeiriodd y Blaen Swyddog Craffu at yr ymgynghoriadau agored y mae modd i'r Aelodau gyfrannu atyn nhw. Fe aeth hi hefyd ati i atgoffa'r Aelodau bod croeso iddyn nhw gysylltu â'r garfan gan ddefnyddio'r Mewnflwch Craffu os oes gyda nhw unrhyw gwestiynau.

**63 GALW I MEWN: CYFLEOEDD POSIBL I GREU MAN CYNNAL ACHLYSURON YCHWANEGOL YM MHARC COFFA YNYSANGHARAD**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r drefn ar gyfer y cyfarfod, fel sydd wedi'i nodi yn rheol 17 o Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod cais i alw penderfyniad i mewn wedi dod i law oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Powell, C Lisles a D Wood, a hynny o fewn y cyfyngiad amser rhagnodedig ar 20 Mawrth 2023. Roedd y cais yn cydymffurfio â'r meini prawf perthnasol yn cael ei ystyried yn ddilys gan y swyddog priodol.

Roedd y cais yn ymwneud â phenderfyniad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu ynglŷn â'r Adroddiad am Gyfleoedd Posibl i Greu Man Cynnal Achlysuron Ychwanegol ym Mharc Coffa Ynysangharad, a drafodwyd gan Is-bwyllgor y Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2023. Roedd y cais yn gofyn bod y mater yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Cafodd y tri Aelod Etholedig a oedd wedi llofnodi'r cais eu gwahodd i annerch y Pwyllgor, gan amlinellu'u rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn (gyda chymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn rhinwedd ei swydd yn Swyddog Priodol). Fe wnaethon nhw hefyd egluro pam y dylai'r penderfyniad gael ei gyfeirio'n ôl at y sawl a oedd yn gyfrifol am y penderfyniad fel bod modd ei ailystyried. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n yn galw ar y Swyddog a'r Aelod Cabinet perthnasol, yr ymgynghorwyd â hwy yn flaenorol ar y mater, i annerch y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Clywodd yr Aelodau y bydd y Cadeirydd wedyn yn gwahodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i drin a thrafod y rhesymau dilys a nodir yn yr adroddiad ynghyd â sylwadau'r Swyddog perthnasol a'r Aelod o'r Cabinet ynghylch a ddylid cyfeirio'r mater yn ôl at Is-bwyllgor y Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad. Wedyn, bydd y Swyddog a'r Aelod o'r Cabinet yn cael eu gwahodd i ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Cadarnhawyd y byddai gan un o'r llofnodwyr enwebedig yr hawl i wneud anerchiad olaf i'r Pwyllgor yn union cyn cynnal pleidlais ynglŷn â chyfeirio'r mater yn ôl i'w ailystyried. Mater i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fydd egluro a chrynhoi effaith penderfyniad y Pwyllgor.

**Y Cynghorydd M Powell**

Roedd y Cynghorydd Powell o'r farn y dylai rhagor o gwestiynau ynglyn â'r cynnig fod wedi cael eu gofyn i'r swyddogion pan gafodd hyn ei drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor. Cyfeiriodd yn benodol at gynigion i greu man troi i fysiau yn rhan uchaf y parc, a fyddai'n cludo teithwyr i achlysuron yn y parc ac yn ôl. Ychwanegodd fod llawer o drigolion yn ei ward wedi cysylltu ag ef i ddweud nad yw'r ardal yma o'r parc yn cael ei thanddefnyddio, a bod llawer o drigolion yn defnyddio'r ardal yma fel llwybr cerdded. Er ei fod yn gwerthfawrogi bod y cynigion yn amodol ar gais am gyllid, roedd o'r farn y dylai'r Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu fod wedi cael ei holi'n fwy manwl.

**Y Cynghorydd C Lisles**

Mynegodd y Cynghorydd Lisles bryderon ynghylch defnyddio'r Parc Coffa ar gyfer parcio a symud cerbydau yn y dyfodol. Gofynnodd am eglurder ynghylch defnydd posibl yr ardal a pha achlysuron a ddisgwylir yn yr ardal achlysuron dros dro.

**Y Cynghorydd D Wood**

Cytunodd y Cynghorydd Wood gyda’r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Powell a’r Cynghorydd Lisles a dywedodd fod llawer o drigolion wedi dweud eu bod nhw'n hoff iawn o'r ardal yma o'r parc ac yn ei defnyddio'n aml. Dywedodd hi nad yw’r ardal yn cael ei thanddefnyddio fel y nodwyd yn yr adroddiad. Gofynnodd am eglurder ynghylch a fyddai coed yn cael eu colli a gofynnodd a oedd arolwg Bioamrywiaeth ac arolwg Effaith Amgylcheddol wedi'u cynnal gan fod llawer o rywogaethau yn yr ardal honno. Holodd y Cynghorydd hefyd ynglŷn â defnydd penodol o’r ardal achlysuron gan fod modd clywed llawer o sŵn traffig yn y man a neilltuwyd, felly efallai na fyddai’n addas ar gyfer rhai achlysuron.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cyflwyniadau a gwahoddodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, Mr Simon Gale i ymateb i'r sylwadau.

Roedd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu yn dymuno egluro nad oedd y cynigion yn fanwl gan nad oedd hwn yn gais grant ffurfiol am gyllid ar hyn o bryd. Roedd hwn yn fynegiant o ddiddordeb er mwyn canfod a yw'r Cyngor yn gymwys i gael cyllid o'r gronfa Y Pethau Pwysig, a gweld os yw hwn yn gynnig a fyddai'n cael ei ystyried yn gymwys.

Cyfeiriodd at sylwadau'r Cynghorydd Powell at fan troi i fysiau a dywedodd nad oedd unrhyw beth yn y cynnig yn awgrymu y byddai bysiau na cherbydau ychwanegol. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelod y byddai unrhyw gerbydau sy'n angenrheidiol ar gyfer achlysuron yn y dyfodol yn cyrraedd y parc yn yr un modd ag y maen nhw wedi'i wneud ar gyfer achlysuron blaenorol yn y parc, a bod y cynigion ond yn gwneud y gofod

yn fwy defnyddiol ac yn cynnig rhagor o opsiynau hamdden ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr ardal yn cael ei defnyddio fel cwrs pytio, ac felly mae'r glaswellt yn cael ei dorri'n gyson. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau y byddai gwiriadau bioamrywiaeth bob amser yn cael eu cynnal cyn dechrau ar unrhyw waith, a nododd eto nad oedd y cynlluniau yma wedi'u hystyried yn fanwl ar hyn o bryd gan mai mynegiant o ddiddordeb yn unig sydd dan sylw ar hyn o bryd.

Dywedodd na fydd unrhyw ffensys yn cael eu tynnu i lawr yn rhan o'r cynnig, a byddai'r awgrym i lefelu'r ardal yn caniatáu mwy o opsiynau ac yn gwneud y gofod yn fwy defnyddiol.

Roedd Cadeirydd Is-bwyllgor y Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad yn dymuno sicrhau'r Aelodau nad oes unrhyw gynlluniau ar gyfer mannau troi, arosfannau bysiau na mannau ychwanegol i gerbydau. Ychwanegodd y bydd yr asesiadau amgylcheddol angenrheidiol yn cael eu cynnal cyn dechrau ar unrhyw waith. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, yna byddai tair coeden yn cael eu tynnu i lawr. Rhoddodd sicrwydd ei bod fel ymddiriedolwr yn fodlon gyda'r cynnig amlinellol a fyddai'n gwella'r parc ymhellach, ac yn rhoi cyfle i drigolion ddefnyddio'r ardal ar gyfer achlysuron yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau a fydd yr ardal laswelltog bresennol yn cael ei chadw fel y mae ar hyn o bryd ac a fydd mynediad i'r cyhoedd o hyd? Dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu mai bwriad y cynnig oedd lefelu'r ardal laswellt fel y byddai hyn yn parhau. Cyfeiriodd at gynnig amlinellol i gynnwys llwybr troed yn yr ardal i'w wneud yn fwy hygyrch, ond dywedodd y byddai astudiaethau dichonoldeb pellach yn cael eu cynnal pe bai'r cynllun yma'n mynd rhagddo. Rhoddodd sicrwydd na fyddai'r cyhoedd yn cael eu hatal rhag defnyddio'r ardal, ac mae'r cynigion yn ceisio gwneud yr ardal yn haws i'r cyhoedd ei defnyddio i gerdded drwyddi neu gael picnic gyda'r teulu.

Gofynnodd Aelod a yw'r mynegiant o ddiddordeb ar gyfer y cyllid eisoes wedi'i gyflwyno yn unol â'r dyddiad cau (16 Mawrth)?

Atebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai trosolwg yn unig oedd y cynnig yn y cyflwyniad a drafodwyd gan Is-bwyllgor Cabinet Cofeb Ryfel Ynysangharad, a hynny at ddiben ymgynghori â'r Pwyllgor fel ymddiriedolwyr. Ychwanegodd fod gan yr ymddiriedolwyr Gylch Gorchwyl penodol sydd i bob pwrpas yn gofyn iddyn nhw weithredu fel gwarcheidwaid. Roedden nhw'n cael eu hysbysu, yn unol â'u Cylch Gorchwyl, o'r cynigion a bydd y Cyngor yn parhau i ymgynghori â nhw os bydd y cynigion yn datblygu ymhellach. Bydd unrhyw benderfyniad i symud y cynnig yn ei flaen yn cael ei wneud gan Bwyllgor Llawn y Cabinet.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cwestiynau a'u sylwadau a gwahoddodd y Cynghorydd Powell i grynhoi'r ddadl o blaid cyfeirio'r penderfyniad yn ôl at y sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol, sef Is-bwyllgor y Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad.

Dywedodd y Cynghorydd Powell fod ganddo bryderon o hyd ynghylch y cynnig ac nid yw'n fodlon gyda'r lleoliad arfaethedig. Roedd yn anghytuno â sylwadau gan swyddogion a oedd yn awgrymu bod yr ardal yma o'r parc yn cael ei thanddefnyddio. Dywedodd ei bod yn ardal sy'n cael ei defnyddio'n aml gan deuluoedd yn mynd â chŵn am dro, a phlant yn chwarae. Roedd o'r farn meddwl y byddai'r cynnig yma'n niweidiol i'r parc pe byddai'n mynd rhagddo.

Ar ôl ystyried y materion ac yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu, **PENDERFYNWYD** na ddylid cyfeirio'r mater yn ôl at Is-bwyllgor y Cabinet - Parc Ynysangharad i'w ailystyried, a bydd penderfyniad yr Is-bwyllgor a wnaed yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2023 yn dod i rym ar ddiwedd y cyfarfod. Crynhowyd y penderfyniad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol.

---

**64 ADRODDIAD CYFLAWNIAD AC ADNODDAU'R CYNGOR**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, Adroddiad Cyflawniad y Cyngor - Chwarter 3 (hyd at 31 Rhagfyr 2022) i'r Aelodau. Nododd fod yr adroddiad yn amlinellu cyflawniad ariannol a gweithredol y Cyngor hyd at ddiwedd Chwarter 3, 2022/23.
.
Wedyn, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Gwella drosolwg o'r adroddiad i'r Aelodau gan groesau eu cwestiynau.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ar y gorwariant Trafnidiaeth o fewn Gwasanaethau Rheng Flaen a ragamcanwyd y byddai'n fwy na £3 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y gorwariant a ragwelwyd yn deillio o bwysau costau chwyddiant sylweddol ar gyfer costau contractwyr cludiant o'r cartref i'r ysgol, er enghraifft, costau uwch ar gyfer tâl, tanwydd ac atgyweirio a chynnal a chadw. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod adnoddau untro wedi'u clustnodi i ariannu'r costau cynyddol yn 2022/23 a bod trefniadau ar waith i weithio gyda chontractwyr i adolygu a herio gwariant ac effaith barhaus chwyddiant.

Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar flaenoriaethau buddsoddi mewn perthynas â chynlluniau ffyrdd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol yn y maes yma.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Cyngor llawn wedi cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf wedi'i diweddaru ar gyfer y cyfnod 2023/24 i 2025/26, sy'n cyfeirio at yr angen i drafod Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth

Cymru. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd i gefnogi cynlluniau a sicrhau bod yr effaith ar yr hinsawdd yn cael ei ystyried.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ynghylch sut mae'r Cyngor yn gweithio i atal absenoldebau salwch staff hirdymor gan y nodwyd bod y ffigur ar hyn o bryd yn 5.5%. Gofynnodd yr Aelodau hefyd a oedd unrhyw effaith ar staff sy'n gweithio gartref o ran teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi neu eu hynysu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod rhaglen waith yn ei lle i gefnogi lles staff a'u dychweliad i'r gweithle pan fyddan nhw'n absennol o'r gwaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod Carfan Rheoli Salwch wedi'i sefydlu sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu i feysydd gwasanaeth lle mae lefelau salwch yn uchel; bod gwybodaeth amserol am lefelau presenoldeb yn cael ei darparu i bob rheolwr er mwyn cynyddu presenoldeb i'r eithaf, gyda threfniadau adolygu ar waith ar draws gwasanaethau; ac mae rhaglen hyfforddi wedi'i chyflwyno i reolwyr sy'n cwmpasu polisi absenoldeb salwch y Cyngor. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod Carfan Iechyd Galwedigaethol y Cyngor yn darparu ystod o wasanaethau i helpu i hybu iechyd da a lles staff ynghyd â gwasanaethau sy'n cefnogi cyflyrau iechyd penodol. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymlaen i gyflenwi dros staff sy'n gweithio o gartref, gan nodi bod asesiadau risg yn cael eu cynnal i sicrhau bod amgylcheddau cartref y gweithwyr a ddefnyddir at ddibenion gwaith yn addas. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, lle bo'n briodol ac yn unol ag anghenion busnes, bod staff yn gweithio ar sail hybrid rhwng y cartref a'r swyddfa i gefnogi gwaith carfan, lles personol a blaenoriaethau gwaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd fod nifer o leoliadau swyddfeydd ger canol trefi, a bod hyn yn helpu i gefnogi adfywio canol trefi.

Cyfeiriodd Aelod at y trosiant staff uchel, yn enwedig yn y Gwasanaethau Cymunedol a Phlant, a gofynnodd am ragor o fanylion am hyn a ph'un a oedd cyfweliadau ymadael yn cael eu cynnal gyda staff cyn iddyn nhw adael.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai'r prif ffactor a gyfrannodd at y lefel trosiant uwch ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol a Phlant yn ystod chwarter 3 oedd y gostyngiad yn lefel y gwasanaeth sydd ei angen ar gyfer y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu, yn unol â chanllawiau/polisi Llywodraeth Cymru a'r gostyngiad yn nifer y staff yn y maes gwasanaeth yma o ganlyniad i hynny. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd fod gwasanaethau'n cynnal cyfweliadau ymadael a byddai'n gofyn am ragor o wybodaeth am y themâu sydd wedi'u nodi'n rhan o'r trefniadau hyn, a diweddariad yn cael ei adrodd i gyfarfod Pwyllgor yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod am sicrwydd bod y Cyngor yn darparu cefnogaeth ddigonol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan fod tanwariant yn y

gyllideb refeniw yn cael ei ragamcanu ar gyfer y maes yma. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai'r rheswm dros y tanwariant rhagamcanol oedd bod y Gwasanaeth yn manteisio ar gyfleoedd cyllid grant allanol yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau bod lefelau darparu gwasanaeth yn cael eu cynnal.

Aeth un Aelod ati i argymell rhoi blaenoriaeth i hyrwyddo’r fenter Hop, Shop and Save lle gall trigolion elwa ar lai o deithio ar fws neu am ddim ar hyd a lled y Fwrdeistref i gefnogi canol ein trefi a’n busnesau lleol.

Dywedodd yr Aelod Cyfetholedig yr hoffai weld y Gofrestr Risg yn fwy deinamig ac yn cynnwys mwy o fanylion o fewn diweddariadau risg, a nododd fod enghraifft o’r ffigur presenoldeb disgyblion o 85% ar gyfer ysgolion cyfun yn bryder a gofynnodd sut mae mynd i'r afael â'r ffigur yma.

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr adborth a rhoddodd sicrwydd bod Cofrestr Risg Strategol y Cyngor yn cael ei hadolygu, ei diweddaru a'i herio'n rheolaidd, a byddai'n ystyried cyfleoedd i gyfeirio'n fwy manwl mewn diweddariadau risg, mewn ymgynghoriad â swyddogion risg arweiniol. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymlaen i nodi bod gwella lefelau presenoldeb mewn ysgolion yn heriol, gyda hyn yn flaenoriaeth allweddol i ysgolion, y Cyngor a Chonsortiwm Canolbarth y De sy'n gweithio mewn partneriaeth i adeiladu ar y trefniadau presennol a'u cryfhau a darparu cymorth angenrheidiol.

**PENDERFYNWYD**: Nododd yr Aelodau gynnwys yr adroddiad a chytunwyd i dderbyn gwybodaeth bellach mewn perthynas â salwch staff

**65 MATERION BRYS**

Dim

**66 ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN**

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'r Aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniadau yn y cyfarfod

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.

**Y Cynghorydd J Edwards**

18.17